

CYFLWYNIAD

Cedwir geifr yng Nghymru i gynhyrchu llaeth, cig neu ffibr; ar gyfer arddangos; ac fel anifeiliaid anwes neu rai i gadw cwmni. Mae nematodau gastroberfeddol (llyngyr) yn broblem neilltuol i eifr oherwydd eu himiwnedd gwan. Gall y parasitiaid hyn achosi colledion llym mewn geifr yn amrywio o ddirywiad mewn treulio bwyd i farwolaeth. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar ddulliau o reoli parasitiaid mewnol mewn geifr.

PARASITIAID

Ymysg y parasitiaid gastroberfeddol sydd i'w canfod mewn geifr mae tair rhywogaeth o nematodau (llyngyren gron) o bwysigrwydd arbennig; *Teladorsagia* (a elwid gynt yn *Ostertagia*); *Trichostrongyles* a *Haemonchus*. Mae gan bob rhywogaeth o nematodau gylchoedd bywyd tebyg sy'n cynnwys dwy nodwedd benodol sydd o ddiddordeb:

1. Anaml y bydd haint yn trosglwyddo o un organeb letyol derfynol i'r llall. Mae hyn o arwyddocâd wrth reoli parasitiaid mewnol trwy reoli porfa. Mae rhywfaint o ddatblygiad fel arfer yn digwydd naill ai yn y pentwr o dom, neu mewn anifail o rywogaeth wahanol (y rhyngolyn lletyol) cyn y gall heintio ddigwydd.
2. Gall nematodau rwystro datblygiad larfal o fewn eu horganeb letyol. Mae hyn yn dymhorol ac yn gyffredinol mae'n cyd-daro â chychwyn amodau oer. Mae'n addasiad sy'n sicrhau goroesiad y parasitiaid yn ystod cyfnodau o galedi ac anhawster. Bydd aeddfediad y larfae'n cyd-daro ag amodau amgylcheddol cynnes a llaith sy'n addas ar gyfer eu datblygiad wrth fyw'n rhydd. Mae aeddfediad cydamserol y larfae'n cynyddu halogiad yr amgylchedd a gall arwain at afiechyd clinigol yn yr organebau lletyol.

FFACTORAU ANIFEILAIDD

Mae'r afiechyd a achosir gan nematodau fel arfer yn deillio o anallu'r anifail i oresgyn drwg-effeithiau'r parasitiaid yn naturiol. Nid yw presenoldeb parasit mewn anifail ynddo'i hun yn arwydd bod afiechyd yn bresennol. Dim ond pan ddaw'r llwythi parasitiaid yn ormodol, neu pan fydd imiwnedd naturiol yr anifail o dan bwysau, ar adeg o straen er enghraifft, y bydd yr anifail yn dangos symptomau afiechyd. Anifeiliaid ifanc sydd fwyaf tueddol o gael eu heintio hefyd.

FFACTORAU RHEOLI

Gall problemau a achosir gan llyngyr mewnol amrywio'n helaeth rhwng anifeiliaid, yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Fe fydd tyrru, gor-bori, a hylendid gwael yn tueddu i gynyddu difrifoldeb parasitiaeth, a graddau afiechyd, yn yr organebau lletyol.



Ffigur 1: Geifr Angora yn pori

SYMPTOMAU

Bydd y symptomau a amlygir gan y geifr yr effeithiwyd arnynt yn dibynnu ar y rhywogaeth, y niferoedd o nematodau sy'n bresennol, a pha mor dueddol yw'r organeb letyol i afiechyd. Gall arwyddion clinigol o bla trwm amrywio o ddolur rhydd i farwolaeth sydyn. Arwyddion mwy cyffredin fyddai lleihad cynnil mewn effeithlonrwydd cynhyrchu megis lleihad mewn cynnyrch llaeth, perfformiad atgynhyrchiol gwael, anifeiliaid sydd ddim yn ffynnu ac yn treulio'n bwyd yn wael. Dylai anifeiliaid sy'n dangos unrhyw rai o'r arwyddion hyn gael eu harchwilio gan filfeddyg.

DIAGNOSIS A THRINIAETH:

Mae cyfrif wyau mewn carthion yn ddull effeithiol ac ymarferol o sefydlu lefel llwyth parasitiaid mewn anifail. Y ffordd orau o benderfynu ar ddiagnosis o barasitiaeth gastroberfeddol a'r angen am driniaeth yw cyfrif wyau mewn carthion, a wneir gan eich milfeddyg. Wedyn bydd yn gallu eich cynghori ar y defnydd cywir o anthelmintigau (cyffuriau gwrth-lyngyr). Mae'n bwysig eich bod yn ymgynghori â'ch milfeddyg ynghylch y cyfraddau dosio cywir ar gyfer geifr gan eu bod yn uwch na'r rhai ar gyfer defaid a gwartheg.



Gall pilennau gludiog gwelw fod yn arwydd o anaemia a achoswyd gan barasitiaid mewnol

RHEOLAETH

Dylid monitro statws iechyd y geifr yn rheolaidd, gan gynnwys parasitiaeth gastroberfeddol, trwy ddilyn a defnyddio cynllun iechyd a luniwyd ar y cyd â'ch milfeddyg. Gan mai anifeiliaid ifanc sydd fwyaf tueddol o gael eu heintio â pharasitiaid, mae dad-lynghyru ewigod naill cyn geni'r myn gafr neu ar ei enedigaeth yn aml yn strategaeth reoli effeithiol.

RHEOLI PORFEYDD

Gellir cyfyngu ar heintio â llyngyr trwy reoli pori a chynnal a chadw pori diogel. Pori diogel yw porfa nad yw wedi cael ei phori gan eifr na defaid yn ystod ail hanner y flwyddyn flaenorol, neu borfa sydd wedi cael ei gadael heb ei phori tan ganol Gorffennaf, gan y bydd y larfae sydd wedi gaeafu yno wedi marw erbyn hynny. Dylai perchnogion geifr geisio cynnal pori diogel, yn enwedig ar gyfer y myn geifr.

SCOPS

Mae'r argymhellion presennol ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy o Barasitiaid mewn Defaid (Sustainable Control of Parasites in Sheep - SCOPS) hefyd yn ddilys ar gyfer perchnogion geifr. Er mwyn osgoi datblygiad ymwrthedd anthelmintig yn eich geifr dylech ddefnyddio'r nifer isaf posibl o driniaethau anthelmintig i reoli'r llyngyr ar eich fferm. Os oes modd, dylid lleihau'r ddibyniaeth ar anthelmintigau trwy reolaeth dda ar bori, monitro cyfrifon wyau mewn carthion, porthiannau eraill a bridio ar gyfer imiwneidd. Pan fo'n angenrheidiol defnyddio anthelmintigau, gwiriwch fod y dryll trochi wedi cael ei raddnodi'n briodol, pwyswch yr afr drymaf a throchwch y grŵp cyfan ar y ddos hon, newidiwch y math o anthelmintig yn flynyddol a gwiriwch y cyfnod cilio.

TERMINOLEG

Defnyddir y term helminth i gyfeirio at nematod (llyngyren gron), cestod (llyngyren ruban), neu trematod (pry'r afu). Nematod – o'r Groeg *nema* "edau" ac *-od* "o natur".